## Fframwaith Rhifedd

| Llinyn | Elfen | Map llwybrau ADD | Camau A | Camau B | Camau C |
|---|---|---|---|---|---|
| Datblygu hyfedredd mathemategol | **Dealltwriaeth gysyniadol** | Sefydlogrwydd gwrthrychau *[ADD 34]* | Rwy'n gallu hoelio fy sylw ar wrthrychau, eu trin a'u harchwilio, gan ddefnyddio ystod o ddulliau. | Rwy'n gallu talu sylw i rifau ac ymateb iddyn nhw mewn amryiwaeth o weithgareddau dan arweiniad oedolyn. | Rwy'n dechrau cymryd rhan mewn rhifo a chymharu rhifau mewn ystod o weithgareddau. |
| | | | | Rwy'n dechrau dod yn ymwybodol o'r hyn mae 'llawer' ac 'ychydig' yn ei feddwl drwy gymryd rhan weithredol mewn nifer o weithgareddau dan arweiniad oedolyn. | Rwy'n gallu dehongli rhifolion ysgrifenedig yn gywir (hyd at 10) mewn tasg ymarferol. |
| | **Rhesymu rhesymegol** | Cyfleu dewis i oedolyn sylwgar *[ADD 37]* | Rwy'n gallu defnyddio synau, ystumiau, gwrthrych a ffotograffau i ddangos ymatebion neu ddewisiadau. | Rwy'n gallu defnyddio rhai geiriau/ymateb yn briodol i rai geiriau sy'n disgrifio:<br>• nifer, *e.e. mwy*<br>• maint, *e.e. mawr*<br>• safle, *e.e. yn/mewn*<br>pan gânt eu defnyddio mewn perthynas â gwrthrychau go iawn. | Rwy'n gallu defnyddio geiriau yn briodol/ymateb yn briodol i eiriau sy'n disgrifio:<br>• nifer, *e.e. rhai, mwy, llawer*<br>• maint, *e.e. mawr, bach*<br>• safle, *e.e. yn/mewn, ar, o dan*<br>mewn ystod o gyd-destunau. |
| | | | Rwy'n gallu dangos ymwybyddiaeth o'r nifer yn ystod gweithgareddau. | Rwy'n gallu defnyddio rhywfaint o iaith fathemategol bob dydd i ddisgrifio gwrthrychau go iawn. | Rwy'n gallu defnyddio iaith fathemategol bob dydd yn naturiol yn ystod digwyddiadau dyddiol cyfarwydd. |
| | **Rhuglder** | | | Rwy'n gallu adnabod patrymau mewn setiau/eitemau/gwrthrychau. | Rwy'n gallu adnabod camgymeriad/bod rhywbeth o'i le yn y patrwm, pan fydd eitemau mewn parau, a'i gywiro drwy gwblhau'r set neu dynnu'r eitem od. |
| | **Cymhwysedd strategol** | Talu sylw ar y cyd *[ADD 40]* | Rwy'n gallu archwilio amrywiaeth o adnoddau ac offer. | Rwy'n gallu copïo/dynwared y defnydd o adnoddau ac offer i'w harchwilio. | Rwy'n gallu dewis a defnyddio ystod o adnoddau ac offer a ddarperir i'm helpu. |
| | | | Rwy'n gallu dangos ymwybyddiaeth o weithgareddau/digwyddiadau dilynol o hyd at 3 cham, gyda chymorth gan oedolyn sylwgar. | Rwy'n gallu dilyn cyfres hyd at 5 o gamau. | Rwy'n gallu dilyn cyfres o hyd at 10 cam i gwblhau tasg. |
| | | Addasu gweithred pan nad yw ailgyflawni'r weithred yn gweithio *[ADD 38]* | Rwy'n gallu defnyddio hoff wrthrych mewn ffordd newydd neu wahanol ar ôl gwylio oedolyn yn gwneud hynny. | Rwy'n gallu trin eitemau cyfarwydd fel rhai tebyg er gwaethaf gwahaniaethau yn eu hymddangosiad neu'r cyfrwng a ddefnyddir i'w cynrychioli, *e.e. fel gwrthrychau, lluniau, ac ati*. | Rwy'n gallu dewis a thrin gwrthrychau er mwyn helpu i ddatrys problem. |
| | | Sefydlogrwydd gwrthrychau *[ADD 34]* | Rwy'n gallu dod o hyd i hoff wrthrych o blith casgliad o wahanol wrthrychau a'i symud. | Rwy'n dechrau dod yn chwilfrydig pan fydd oedolyn yn rhoi trefn ar eitemau neu rifau ac yna rwy'n ceisio copïo'r drefn. | Rwy'n gallu defnyddio dull profi a methu i roi cynnig ar ddatrys problem. |
| | | | | Rwy'n gallu chwilio am yr holl eitemau sydd ar goll pan fydd 2 neu 3 gwrthrych wedi'u cuddio. | |
| | **Cyfathrebu â symbolau** | | Rwy'n ymwybodol bod ystyr i sŵn/ystum/gwrthrych/ffotograff. | Rwy'n gallu cofnodi drwy wneud marciau neu dynnu lluniau. | Rwy'n gallu creu ac arbrofi gyda symbolau a marciau sy'n cynrychioli syniadau rhifau. |

OGL © Hawlfraint y Goron 2022 WG43792 ISBN digidol 978-1-80391-393-3

## Fframwaith Rhifedd

| Llinyn | Elfen | Map llwybrau ADD | Camau A | Camau B | Camau C |
|---|---|---|---|---|---|
| Mae deall y system rif yn ein helpu i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau | **Y system rif** | Talu sylw ar y cyd *[ADD 40]* | Rwy'n gallu rhagweld uchafbwynt mewn caneuon neu rigymau cyfarwydd sy'n ymwneud â rhifau, gan ddangos adnabyddiaeth gychwynol o eiriau sy'n ymwneud â rhifau. | Rwy'n gallu cyfrif hyd at 5 gwrthrych. | Rwy'n gallu cyfrif hyd at 10 gwrthrych yn ddibynadwy. |
| | | | Rwy'n gallu adnabod pan fydd nifer yn fwy neu'n llai. | Rwy'n gallu adrodd rhifau hyd at 5. | Rwy'n gallu adrodd rhifau uwch na 10. |
| | | | Rwy'n gallu lleisio neu bwyntio at wrthrych neu eitem sy'n cydfynd â rhythm oedolyn yn cyfrif. | Rwy'n gallu enwi a threfnu rhifau hyd at 5. | Rwy'n gallu enwi a threfnu rhifau hyd at 10. |
| | | | | Rwy'n gallu adnabod pan fydd rhif hyd at 5 yn fwy na rhif arall. | |
| | | | | Rwy'n gallu cysylltu rhifolion hyd at 5 â gweithgareddau sy'n ymwneud â rhifau. | |
| | **Perthnasoedd yn y system rif** | | | | |
| | **Cyfrifiad** | Dangos arwyddion cynnar o ddatrys problemau – rhoi cynnig ar strategaeth newydd pan yw'r hen un yn methu *[ADD 42]* | Rwy'n dechrau dod yn ymwybodol o'r cysyniad o 'fwy'. | Rwy'n dechrau dod yn ymwybodol o'r gwahaniaeth rhwng un a llawer. | Rwy'n gallu ychwanegu mwy at set pan fydd y dasg wedi'i strwythuro gan oedolyn. |
| | | | Rwy'n dechrau dod yn ymwybodol o'r cysyniad o 'wedi mynd/gorffen'. | | Rwy'n gallu deall y cysyniad o ddim. |
| | | | | | Rwy'n gallu tynnu o set pan fydd y dasg wedi'i strwythuro gan oedolyn. |
| | **Llythrennedd ariannol** | Cyfleu dewis i oedolyn sylwgar *[ADD 37]* | Rwy'n gallu rhoi darn arian yn gyfnewid am eitem ar ôl arsylwi bod eraill yn gwneud hynny wrth chwarae rôl. | Rwy'n gallu pwyntio at eitem ddewisol o blith hyd at 5 wrth chwarae rôl ac yna rhoi darn(au) arian yn gyfnewid. | Rwy'n gallu rhoi arian yn gyfnewid am eitem wrth chwarae rôl pan fydd darnau arian a'r dewis yn cael eu paratoi ymlaen llaw. |
| | | | | Rwy'n gallu dod o hyd i ddarnau arian o gasgliad cyfyngedig sydd yr un fath â rhai a ddangosir gan oedolyn. | Rwy'n gallu didoli darnau arian yn ôl un priodoledd, *e.e. lliw, maint neu siâp*. |

OGL © Hawlfraint y Goron 2022 WG43792 ISBN digidol 978-1-80391-393-3

## Fframwaith Rhifedd

| Llinyn | Elfen | Map llwybrau ADD | Camau A | Camau B | Camau C |
|---|---|---|---|---|---|
| Mae dysgu am geometreg yn ein helpu i ddeall siapiau, gofod a safle, ac mae dysgu am fesur yn ein helpu i feintioli yn y byd go iawn | **Mesur** | Dewis o blith dwy neu fwy o eitemau *[ADD 36]* | Rwy'n gallu archwilio gwrthrychau drwy eu dal a'u rhoi at ei gilydd, eu cyfuno a'u pentyrru, eu torri ar wahân a'u rhoi mewn cynwysyddion. | Rwy'n gallu adnabod gwrthrych mawr neu fach, hir neu fyr, trwm neu ysgafn o ddwy eitem sydd fel arall yn debyg. | Rwy'n gallu cymharu maint gwrthrychau drwy eu gosod mewn rhes neu eu dal gyda'i gilydd, gan ddefnyddio iaith sylfaenol i gymharu, *e.e. mawr/bach, mwyaf/lleiaf, hiraf/byrraf, trymaf/ysgafnaf*. |
| | | | | Rwy'n gallu paru gwrthrych o blith casgliad bach o wrthrychau pan fydd y gweithgaredd wedi'i strwythuro gan oedolyn. | |
| | | | | Rwy'n gallu ceisio trefnu hyd at 5 gwrthrych yn ôl trefn maint. | |
| | | Cyflawni dwy weithred wahanol yn eu trefn er mwyn cael gwobr *[ADD 35]* | Rwy'n gallu dangos ymwybyddiaeth gynyddol o batrymau rhythmig a dechrau cydgysylltu rhai synau gydag ystumiau neu bwyntio. | Rwy'n gallu addasu cyflymder clapio i gyfateb i fodel. | Rwy'n gallu deall trefn digwyddiadau pan gaiff ei chynrychioli gan lun/symbol neu wrthrych. |
| | | | Rwy'n dechrau dod yn ymwybodol o ddigwyddiadau arferol pan gânt eu cynrychioli gan sŵn, ystum, gwrthrych neu ffotograff, os caf i fy nghefnogi gan oedolyn sylwgar. | Rwy'n gallu rhagweld digwyddiad arferol pan gaiff ei gynrychioli gan gair, arwydd a symbol. | Rwy'n gallu dangos dealltwriaeth o beth mae nawr a nesaf yn ei feddwl. |
| | | | | | Rwy'n gallu derbyn aros am weithgaredd mwy ffafriol drwy gyfeirio at gynrychiolaeth ddarluniadol o'm diwrnod. |
| | **Siâp a gofod** | Cychwyn strategaethau i sicrhau'r canlyniadau a ddymunir mewn amryw o gyd-destunau (arfer ymreolaeth) *[ADD 43]* | Rwy'n gallu defnyddio symudiadau echddygol manwl gydag un llaw neu'r ddwy i archwilio a thrin siapiau. | Rwy'n gallu defnyddio cydsymudiad llaw a llygaid i archwilio priodweddau gwahanol siapiau. | Rwy'n dechrau deall bod gan siapiau wahanol briodweddau. |
| | | | Rwy'n gallu symud gwahanol rannau o'm corff gan ddefnyddio symudiadau echddygol bras i wneud siapiau ac archwilio'r amgylchedd. | Rwy'n gallu defnyddio fy nghorff drwy ddwyn i gof yn naturiol i archwilio siâp a gofod yr amgylchedd o'm cwmpas. | Rwy'n gallu defnyddio fy nghorff yn hyderus mewn modd rhugl ac aeddfed i archwilio siâp a gofod yr amgylchedd o'm cwmpas. |
| | | | Mae gen i'r symudiadau echddygol manwl i allu gafael a rhyddhau. | | |
| | **Safle** | Addasu gweithred pan nad yw ailgyflawni'r weithred yn gweithio *[ADD 38]* | Rwy'n gallu symud fy nghorff gan ddefnyddio fy synhwyrau festibwlar a phropriodderbynnol i archwilio'r byd o'm cwmpas. | Rwy'n gallu defnyddio fy synhwyrau festibwlar a phropriodderbynnol i gopïo symudiadau syml wedi'u modelu gan oedolyn pan fydd yr oedolyn yn defnyddio ystumiau ac iaith i ddisgrifio'r symudiadau, *e.e. yn/mewn, ar, o dan*. | Rwy'n gallu defnyddio fy synhwyrau festibwlar a phropriodderbynnol i gopïo symudiadau syml, yn dilyn cyfarwyddyd gan oedolyn sy'n defnyddio iaith berthnasol i ddisgrifio'r symudiadau, *e.e. y tu ôl, o flaen, ar ben*. |
| | **Ongl** | | | | |

OGL © Hawlfraint y Goron 2022 WG43792 ISBN digidol 978-1-80391-393-3

# Fframwaith Rhifedd

| Llinyn | Elfen | Map llwybrau ADD | Camau A | Camau B | Camau C |
|---|---|---|---|---|---|
| Mae dysgu bod ystadegau yn cynrychioli data a bod tebygolrwydd yn modelu siawns yn ein helpu i wneud casgliadau a phenderfyniadau ar sail gwybodaeth | **Casglu data** | | Rwy’n gallu casglu gwrthrychau sydd o ddiddordeb gwirioneddol i mi yn ystod gweithgaredd, digwyddiad neu brofiad, gyda chefnogaeth. | Rwy’n gallu casglu gwrthrychau penodol dan gyfarwyddyd oedolyn sylwgar. | Rwy’n gallu dilyn ffotograffau a chyfarwyddiadau symbolaidd i’m helpu i gasglu eitemau a gwrthrychau penodol. |
| | **Cynrychioli data** | Dewis o blith dwy neu fwy o eitemau *[ADD 36]* | Rwy’n gallu cadw sawl gwrthrych sy’n rhannu nodwedd penodol a ffefrir, a rhoi eraill o’r neilltu. | Rwy’n gallu gwahanu casgliad o wrthrychau sy’n rhannu priodoledd cyffredin o’m dewis fy hun. | Rwy’n gallu gwahanu gwrthrychau sy’n rhannu priodoledd penodedig, *e.e. mawr, bach, crwn*. |
| | | | | Rwy’n gallu trin gwrthrychau neu luniau mewn gemau a gweithgareddau syml sy’n ymwneud â rhifau. | Rwy’n gallu defnyddio didoli a gosod trefn i drefnu gwrthrychau, ond nid bob amser yn gywir. |
| | | | | Rwy’n gallu defnyddio symbolau/gwrthrychau/rhifolion i gynrychioli’r nifer o wrthrychau hyd at 5 sy’n bresennol. | Rwy’n gallu paru rhifolion hyd at 10 â setiau o wrthrychau. |
| | | Dewis o blith dwy neu fwy o eitemau *[ADD 36]* | Rwy’n gallu cyffwrdd, pwyntio at neu roi gwrthrych i gyfleu ateb mewn gweithgaredd sy’n ymwneud â rhifau. | Rwy’n gallu paru gwrthrych â gwrthrych union yr un fath, a pharu llun â llun union yr un fath. | Rwy’n gallu paru lluniau â gwrthrychau yn gyson er pan nad ydyn nhw o reidrwydd yn union yr un fath. |
| | | | | Rwy’n gallu paru gwrthrych cyfarwydd iawn â ffotograff clir o wrthrych sydd union yr un fath. | Rwy’n gallu paru parau cysylltiedig o wrthrychau neu luniau, *e.e. cyllell a fforc, cwpan a soser*. |
| | **Dehongli data** | | | Rwy’n gallu adnabod parau o wrthrychau. | Rwy’n gallu gweld tebygrwydd mewn setiau o wrthrychau neu luniau, gyda chymorth oedolyn sylwgar. |
| | | | | | Rwy’n gallu defnyddio gwrthrychau, marciau a chyfryngau cymdeithasol i ddechrau cofnodi casgliadau, ac egluro’n syml ystyr gwybodaeth. |

OGL © Hawlfraint y Goron 2022 WG43792 ISBN digidol 978-1-80391-393-3